**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Gorffennaf 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2 | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan. |
| 3 | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| 4 | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015 fel cofnod cywir i'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| 5 | DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL MEWNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cytuno i ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn â'r awgrymiadau fel y manylir arnynt yn yr adroddiad ac fel y cânt eu hamlinellu isod -*<br><br>• *Hafan Deg - ymuno mewn partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo'r adeilad iddynt, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac, yn ogystal, galluogi asiantaethau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau unigedd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hybu gwytnwch.*<br><br>• *Dolwen - ymuno mewn partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo'r gwasanaeth cyfan iddynt (gofal preswyl a gofal dydd), gsn gofrestru ar gyfer gofal Henoed Eiddil eu Meddwl.*<br><br>• *Awelon - atal derbyniadau newydd a gweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd, yn eu* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *pwysau, i archwilio, lle bo'n briodol, ddewisiadau amgen addas ar gyfer ymuno mewn partneriaeth â pherchennog Llys Awelon i ddatblygu rhagor o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle.*<br><br>• *Cysgod y Gaer - ymuno mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid perthnasol (gan gynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r 3ydd sector) i ddatblygu'r safle yn 'ganolfan cymorth' gan gynnig cyfleusterau preswyl a gofal ychwanegol, yn ogystal â gofal cartref allgymorth a gwasanaeth cymorth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol ac i boblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos.*<br><br>*(b)* *cytuno i ymrwymo i dendr ar gyfer darparu gofal yn y cartref yng Nghynlluniau Gofal Ychwanegol Llys Awelon, Nant y Môr a Gorwel Newydd fel y nodir ym mharagraff 4.5.5 yr adroddiad;*<br><br>*(c)* *nodi y bydd yn rhaid i unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y bobl hŷn hynny y mae arnynt ei angen, a chynnal y gallu i wneud hynny, a*<br><br>*(d)* *bod y Cyngor yn ymgysylltu â Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn annog rhagor o gydweithio a gwaith partneriaethol rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â gofal i bobl hŷn.* |
| **6** | GWEITHREDU DEDDF TAI CYMRU 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo eu penderfyniad gwreiddiol i gadw'r prawf "bwriadoldeb" yn ei grynswth.* |
| **7** | DILEU TRETHI BUSNES | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i ddiddymu Trethi Busnes na ellir eu hadennill fel y* |

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | | *nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |